

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru: Eiriolaeth a hawliau i blant a phobl ifanc

Rhagymadrodd

Mae gan ofalwyr maeth rôl hanfodol yn y gwaith o alluogi llais plant a phobl ifanc i gael ei glywed. Mae eiriolaeth yn grymuso plant i wybod eu hawliau, i gael eu cynrychioli ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau eu hunain.

Beth yw eiriolaeth?

'Proses yw eiriolaeth sy'n helpu rhywun i leisio barn drostynt eu hunain, i gyrchu gwybodaeth, a'u hawliau, ac i atal, dechrau neu newid rhywbeth.'

Cynulliad Cymru (2009)

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, mewn perthynas ag eiriolaeth, yn datgan bod buddiannau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diogelu, eu cefnogi a'u hyrwyddo'n well drwy gael hyrwyddwr personol ar ffurf eiriolwr a all gymryd rôl weithredol yn eu bywydau.

Mae hyn yn neilltuol o bwysig i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Fe'i cynorthwyir gan y fframwaith o ddeddfwriaeth a safonau sy'n rheoli gofal maeth:

- Mae deall ac ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc yn un o egwyddorion sylfaenol Deddf Plant 1989.
- Yn 2011, fe wnaeth Cymru ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith.
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu rhagdybiaeth gref y caiff llais plentyn ei glywed a bod gan blant yr hawl i eiriolwr annibynnol. Mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r gwasanaethau eiriolaeth hyn.
- Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Maethu yn mynnu y ceisir barn plant ynghylch pob mater sy'n debygol o effeithio ar eu bywyd dyddiol a'u dyfodol.
- Mae'n rhaid i'r gwasanaeth maethu sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod sut i godi pryderon neu gwynion, a'u bod yn cael ateb cyflym.
- Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol yn y gwasanaeth maethu hyrwyddo hawliau unigolion fel rhan o ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Mae'n rhaid i ofalwyr ddeall pwysigrwydd gwranddo ar farn y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal, ac fe gânt eu hyfforddi a'u cynorthwyo gan y gwasanaeth o ran yr agwedd hon o'u gwaith.
- Mae'n rhaid i Ganllaw'r Plant gynnwys gwybodaeth am sut y gall plentyn sicrhau mynediad at eiriolwr annibynnol ac at wybodaeth am sut i gwyno, yn cynnwys yr hawl i fynd at Gomisiynydd Plant Cymru.
- Mae'n rhaid darparu cymorth ychwanegol i unrhyw blentyn neu berson ifanc a chanddo anawsterau cyfathrebu.

Yn fwy na chael ond gwasanaethau eiriolaeth ar waith, mae ar bawb sy'n gweithio â'r plentyn angen sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall ei hawliau, yn gwybod am eiriolaeth ac yn gwybod sut i gael ato. Mae hyn ar gyfer nid yn unig pan fônt yn dymuno gwneud cŵyn ffurfiol, ond hefyd mae'n cynnwys sefyllfaoedd pan fo arnynt angen gwneud sylwadau am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Bydd cael at eiriolaeth yn neilltuol o bwysig pan wneir penderfyniadau allweddol – lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw, symud lleoliad, cysylltiad, er enghraifft.

Mae'r ymrwymiad i eiriolaeth yn ymestyn i bobl ifanc sy'n aros gyda'u gofalwyr ar ôl cyrraedd 18 oed ac i bob person sy'n gadael gofal.

Rôl gofalwyr maeth

Mae gan ofalwyr maeth rôl hanfodol mewn galluogi'r plentyn i gyfleu'i farn, ac i fynegi'i ddymuniadau a'i deimladau am y cymorth y mae'n ei deimlo y bydd arno'i angen ar gyfer y dyfodol.

Sicrhewch fod y plentyn neu'r person ifanc yn gwybod sut i gael cyngor annibynnol am ei hawliau. Peidiwch â rhagdybio ei fod yn gwybod. Mae yna amryw o lwybrau mynediad posibl:

- Mae yna ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc. Cysylltwch â'r gweithiwr cymdeithasol ac edrychwch ar Ganllaw'r Plant neu ar drefn gwyno plant. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ddarparu copi o'r rhain ar gyfer y plentyn.
- Drwy'r broses cynllunio gofal a'r swyddog adolygu annibynnol (IRO).
- Cysylltu â sefydliad hawliau plant annibynnol. Fe ganfyddwch rai cyfeiriadau ar y daflen ffeithiau hon.

Mae eiriolaeth yn rhan o rôl y gofalwr maeth. Mae'n debygol mai y chi yw un o'r rhai cyntaf i wybod am bryderon, amheuon neu gwynion y plentyn. Siaradwch â'r plentyn neu'r person ifanc ynglŷn â'r hyn y mae arno eisiau iddo ddigwydd. Efallai mai y chi yw'r person gorau i'w helpu neu i ddatrys problem neilltuol. Ar yr un pryd, sicrhewch ei fod yn deall bod eiriolaeth annibynnol ar gael a sut y gallai hynny ei helpu.

Gall eiriolwyr a gofalwyr maeth gydweithio ar ran y plentyn neu'r person ifanc. Sylwodd adolygiad o eiriolaeth, a gynhaliwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2005, fod:

'Dyweddodd y rhan fwyaf o bobl ifanc fod yn well ganddynt eiriolwr "proffesiynol" mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol (cyfarfodydd a phenderfyniadau pwysig) a gofalwyr/teulu ar gyfer materion mwy beunyddiol. Roedd rhesymau allweddol a roddwyd yn cynnwys hyfforddiant a gwybodaeth yr eiriolwr proffesiynol am systemau, yn ogystal â'u bod yn canolbwyntio ar ddymuniadau a theimladau'r person ifanc (dim gwrthdaro o ran buddiannau) a darparu gwasanaeth cyfrinachol ac annibynnol.'

Aeth rhagddo i ddweud bod dealltwriaeth eglur o eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn rymusol iawn i blant a phobl ifanc, ac os yw gofalwyr maeth yn sicrhau'r ddealltwriaeth hon, yna fe fyddant yn teimlo'n llawer llai o dan fygythiad oddi wrth eiriolaeth ac o ganlyniad, fe fyddant yn llawer mwy tebygol o'i hyrwyddo.

Adnoddau

MEIC

Dyma'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae'n

cwmpasu gwybodaeth, cynghorion ac eiriolaeth.
bit.ly/meiccymru

Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad hawliau plant annibynnol sy'n diogelu ac yn hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc.

bit.ly/childwales

Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori hanfodol i'n haelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ffoniwch ar unrhyw adeg arall, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

Fosterlinewales@fostering.net

Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cefnogaeth ac adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd i gael cefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth. thefosteringnetwork.org.uk

I gael cyngor ar y we ar eiriolaeth, ewch i: thefosteringnetwork.org.uk/policy-practice/policies/fostering-legislation-in-wales

Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltu â Ni

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017